


**ADRANNAU 80, 81, 82 AC 83 O DDEDDF ADEILADU 1984**
**NODYN CYFARWYDDYD AR BARATOI**
**HYSBYSIADAU O FWRIAD I DDYMCHWEL.**

**Bwriad i wneud gwaith dymchwel.**

*Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith dymchwel:*

(i) Rhaid i chi roi rhybudd o'ch bwriad i ddymchwel neu rannol ddymchwel adeilad, cyn dechrau'r gwaith. Rhaid i'r hysbysiad nodi'r adeilad y mae'n ymwneud ag ef; a natur a maint y gwaith arfaethedig. Er nad oes fformat angenrheidiol ar gyfer yr hysbysiad hwn, gellir defnyddio'r templed atodedig (hysbysiad adran 80).

(ii) Bydd yn ofynnol i'r person sy'n gwneud gwaith hefyd yn anfon copi o'r hysbysiad i breswylwyr unrhyw adeilad sydd gerllaw'r gwaith; y cwmni cyflenwi nwy lleol; a'r cyflenwr trydan lleol.

(iii) Ni ellir dechrau ar y gwaith dymchwel naill ai hyd nes bod y cyngor wedi cyhoeddi gwrth-hysbysiad dan Adran 81 o'r Ddeddf Adeiladu neu bod cyfnod o chwe wythnos wedi dod i ben ers y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad o dan adran 80.

(iv) Gallai dechrau ar y gwaith cyn derbyn gwrth-hysbysiad neu ddiwedd y chwe wythnos a grybwyllir uchod olygu bod yr unigolyn yn agored, drwy gollfarn ddiannod, i ddirwy fydd ddim mwy na lefel 4 y raddfa safonol (£2500).

*Eithriadau:*

Nid oes angen i chi gyflwyno hysbysiad Dymchwel adran 80 os yw'r gwaith dymchwel: -

(a) yn unol â gorchymyn dymchwel a wnaed o dan Ddeddf Tai 1957.

(b) yn rhan fewnol o adeilad a feddiannir ac mai'r bwriad yw iddo barhau i gael ei feddiannu.

(c) yn adeilad sydd, o''i fesur yn allanol, heb fod yn fwy na 1750 troedfedd ciwbig (tua 50 metr ciwbig) (e.e. 3.6m x 3.6m x 3.6m.)

(d) yn dŷ gwydr, ystafell wydr, sied neu fodurdy parod sy'n rhan o adeilad mwy.

(e) yn adeilad amaethyddol oni bai ei fod wedi'i gysylltu ag adeilad arall nad yw'n adeilad amaethyddol neu adeilad a grybwyllir yn (c) neu (d) uchod.

**Gwrth Hysbysiad Awdurdod Lleol.**

Ar ôl derbyn hysbysiad o fwriad i ddymchwel, bydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno gwrth-hysbysiad (adran 81) i'r person sy'n bwriadu cyflawni'r gwaith dymchwel. Bydd yr hysbysiad yn rhestru gofynion y mae'n rhaid i'r gwaith dymchwel gydymffurfio â nhw.

Gellir hefyd gyhoedd hysbysiad o'r fath os oes rhywun: -

(a) yn derbyn gorchymyn dymchwel a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Tai 1957.

(b) yn ymddangos fel pe nad yw'n bwriadu cydymffurfio â gorchymyn a wnaed o dan adran 77 neu adran 79 o Ddeddf Adeiladu 1984.

(c) yn ymddangos fel pe baent wedi dechrau neu'n bwriadu dechrau gwaith dymchwel y mae adran 80 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn berthnasol iddo.

*Y cyfnod ar gyfer cyhoeddi gwrth-hysbysiad.*

Rhaid cyflwyno gwrth-hysbysiad o dan adran 81 o'r Ddeddf Adeiladu o fewn y cyfnod perthnasol. Pan fo rhywun sy'n bwriadu gwneud gwaith dymchwel yn cyflwyno hysbysiad o dan adran 80, y cyfnod perthnasol yw chwe wythnos. Pan fo'r awdurdod lleol wedi cyflwyno gorchymyn dymchwel o dan Ddeddf Tai 1957, y cyfnod perthnasol yw saith niwrnod.

*Hysbysiadau Awdurdod Lleol.*

Rhaid i'r awdurdod lleol ddosbarthu copïau o'r gwrth-hysbysiad i berchennog a deiliaid adeiladau cyfagos; i'r cwmni cyflenwi nwy lleol; y cwmni cyflenwi trydan lleol; y cwmni cyflenwi dŵr lleol; a'r awdurdod tân lleol.

Os fydd deunyddiau i'w llosgi ar y safle yna bydd copi o'r hysbysiad hefyd yn cael ei ddosbarthu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

**Cynllunio a chaniatadau eraill.**

Yn ogystal â'r hysbysiad dymchwel adran 80, bydd angen i chi hefyd hysbysu adran gynllunio Cyngor Sir Penfro. Gellir cysylltu â nhw ar 01437 764551 os ydych am drafod eu gofynion ymhellach.

**Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974**

Ni fydd unrhyw beth a gynhwysir mewn hysbysiad o dan adran 81 Deddf Adeiladu 1984 yn niweidio neu'n effeithio ar weithrediad na darpariaethau statudol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974. Os oes gofyniad yn yr hysbysiad adran 81 sy'n anghyson â gofyniad a osodir gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati, yna mae'r gofyniad diweddarach yn trechu.